

Canllawiau i Athrawon

Mae The Daily Mile Foundation yn eich gwahodd i benodi 'Llysgenhadon Ifanc' o fewn eich sefydliad. Penodwch eich Llysgenhadon Ifanc Daily Mile trwy bleidlais dosbarth, enwebiad gan athro, neu drwy'r broses arferol ar gyfer dewis cynrychiolwyr llais y disgybl.

Rôl a Chyfrifoldebau'r Llysgenhadon Ifanc

- Byddwch yn esiampl i eraill gyda'r Daily Mile!
- Hyrwyddo The DM yn eich ysgol
- Helpu eraill i gymryd rhan
- Cyflwyno gwobrau i ddisgyblion ac aelodau staff
- Defnyddio adnoddau ac arwain gwasanaethau gydag arweiniad athrawon.

Mae'r rôl yn hyblyg i weddu orau i'ch Daily Milers. Defnyddiwch y rolau a'r cyfrifoldebau fel canllaw, ond byddwch yn greadigol yn eich rôl fel 'Llysgennad Ifanc'!

Syniad am dasg

Efallai y bydd Llysgenhadon Ifanc The Daily Mile am ddechrau drwy gyflwyno tystysgrifau o'r Hwb Adnoddau i'w cyfoedion mewn gwasanaethau wythnosol.

